**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 07-02(p2)**

Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002

1. Bydd Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002 yn gymwys i brosiectau ar gyfer newid y defnydd o dir heb ei drin ac ardaloedd lled-naturiol pan fydd y newid hwnnw yn arwain at ddefnyddio'r tir neu'r ardal at ddefnydd amaethyddol dwys. Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu rhwymedigaethau sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 85/337/ ar asesu effeithiau rhai projectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd na chawsant eu gweithredu o'r blaen. Maent hefyd yn cyflwyno fel rhan o ddeddfwriaeth ddomestig ofynion o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 1992/43 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol o ffawna a fflora gwyllt ("y Gyfarwyddeb Cynefinoedd") ar gyfer delio â phrojectau o'r fath.

2. Sefydlodd y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol (y "Gyfarwyddeb AEA") weithdrefn ar gyfer ystyried effeithiau amgylcheddol posibl newid defnydd tir. Mae'r weithdrefn hon eisoes yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, projectau coedwigaeth a gwaith i wella tirddraeniad. Mae angen y Rheoliadau hyn er mwyn rhoi effaith lawn i'r Gyfarwyddeb drwy ymestyn gweithdrefnau'r AEA i gynnwys prosiectau ar gyfer defnyddio tir heb ei drin ac ardaloedd lled-naturiol at ddibenion amaethyddol dwys.

3. O dan y Rheoliadau hyn bydd y gweithdrefnau canlynol yn gymwys i brosiectau o'r fath

**Cais am benderfyniad sgrinio**

4. Rhaid i unrhyw berson sy'n dymuno cyflawni prosiect ar gyfer defnyddio tir heb ei drin ac ardaloedd lled-naturiol at ddibenion amaethyddol dwys wneud cais am benderfyniad sgrinio. (Mae rheoliad 4 yn rhwystro unrhyw brosiect rhag cael ei gynnal oni bai fod penderfyniad sgrinio wedi'i dderbyn yn gyntaf.)

5. Nodir y gofynion gweithdrefnol mewn perthynas â phenderfyniadau sgrinio yn rheoliad 5.

6. Rhaid cyrraedd y penderfyniad sgrinio yn unol â'r meini prawf ar gyfer dethol a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Mae'r penderfyniad sgrinio yn pennu a yw'r project yn un sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd (a fydd yn cynnwys prosiect sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar safle Ewropeaidd o fewn ystyr Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac yn y blaen) 1994 (fel y'u diwygiwyd) ("y Rheoliadau Cynefinoedd")).

7. Mae prosiect, sydd wedi'i bennu felly, yn cael ei ddiffinio yn y Rheoliadau fel "prosiect perthnasol".

**Cais am farn o'r cwmpas**

8. Nid yw'r cam hwn yn orfodol. O dan Reoliad 7 gall unrhyw berson sy'n dymuno bwrw ymlaen â phrojetc perthnasol, h.y. prosiect sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd, wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am farn o'r cwmpas. Mae Rheoliad 6 yn darparu na chaiff unrhyw berson gyflawni prosiect perthnasol heb fod caniatâd y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i sicrhau yn gyntaf. Rhaid cyflwyno datganiad amgylcheddol gydag unrhyw gais am ganiatâd a barn am y cwmpas yw barn oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch yr wybodaeth a fydd yn ofynnol fel rhan o'r datganiad amgylcheddol.

**Cais am ganiatâd**

9. Mae Rheoliadau 9 a 10 yn cynnwys y gofynion gweithdrefnol ar gyfer y cais am ganiatâd. Mae angen i'r cais gynnwys y datganiad amgylcheddol a ddiffinnir fel datganiad sy'n cynnwys yr wybodaeth yn Rhan II o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn ac unrhyw ran o'r wybodaeth yn Rhan I o Atodlen 2 y mae angen rhesymol amdani er mwyn asesu effeithiau amgylcheddol y prosiect.

10. Mae Rheoliad 11 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer hysbysu Gwladwriaethau eraill sy'n bartïon i'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ("yr AEE") am brosiectau sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol ar y Gwladwriaethau hynny ac ar gyfer rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau mewn perthynas â phrojectau o'r fath. Mae'n cynnwys darpariaethau hefyd ar gyfer ystyried effeithiau projectau mewn Gwladwriaethau eraill yr AEE y rhoddir gwybod amdanynt i'r Cynulliad Cenedlaethol fel rhai sy'n debyg o gael effeithiau amgylcheddol ar Gymru.

11. Mae Rheoliad 12 yn nodi sut y caiff penderfyniadau o dan y Rheoliadau hyn eu gwneud mewn perthynas â phrojectau a leolir yn rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr.

12. Mae Rheoliad 13 yn pennu sut y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer prosiect. Mae'n ofynnol bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth a'r sylwadau sy'n cael eu darparu yn unol â'r Rheoliadau hyn.

13. O dan reoliad 13(3) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol beidio â rhoi caniatâd ar gyfer prosiect a fyddai'n cynnwys gwneud unrhywbeth a fyddai'n anghyfreithlon o dan reoliadau 39, 1 neu 43 o'r Rheoliadau Cynefinoedd (sy'n gweithredu Erthyglau 12, 13 15 ac 16 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd). Mae Rheoliad 39 yn creu amryw o dramgwyddau gyda'r bwriad o warchod anifeiliaid gwyllt sy'n rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod yn Ewropeaidd, gan gynnwys eu dal, eu lladd neu ddifrodi neu ddinistrio safle bridio neu fan gorffwys rhywogaethau o'r fath. Mae rheoliad 41 yn gwahardd rhai dulliau penodol o gymryd neu ladd anifeiliaid. Mae Rheoliad

43 yn creu tramgwyddau amrywiol gyda’r bwriad o warchod planhigion gwyllt o rywogaethau Ewropeaidd.

14. Mae paragraffau (4) i (9) o reoliad 13 yn gweithredu’r gofynion sydd i’w bodloni cyn y gellir rhoi caniatâd ar gyfer prosiect sy’n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd (naill ai ar ei ben ei hun neu wedi’i gyfuno â phrojectau eraill). Er bod angen cymryd yr un wybodaeth a sylwadau i ystyriaeth, i’r graddau y gallant fod yn berthnasol, fel gydag unrhyw brosiect arall, mae yna brofion penodol i’w sefyll. Mae’r profion penodol hyn yn gweithredu Erthygl 6(3) o’r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac mae’r darpariaethau yn y Rheoliadau hyn yn debyg i’r rhai yn y Rheoliadau Cynefinoedd sy’n gymwys i weithdrefnau eraill ar gyfer rhoi caniatâd.

15. Mae Rheoliad 13(5) a (7) yn gwahardd rhoi caniatâd ar gyfer prosiect a fyddai’n cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd heblaw pan nad oes unrhyw ateb arall a bod raid cyflawni’r prosiect am resymau angenrheidiol er lles hollbwysig y cyhoedd. Pan fo’r safle yn lleoliad ar gyfer cynefin naturiol sy’n cael blaenoriaeth neu rywogaethau sy’n cael blaenoriaeth rhaid i’r rhesymau angenrheidiol er lles hollbwysig y cyhoedd fod naill ai yn

(a) rhesymau sy’n ymwneud â iechyd dynol, diogelwch y cyhoedd neu ganlyniadau buddiol a fydd o bwysigrwydd sylfaenol i’r amgylchedd; neu

(b) rhesymau eraill sydd ym marn y Comisiwn Ewropeaidd yn rhesymau angenrheidiol er lles hollbwysig y cyhoedd.

16. Pan fo’r Cynulliad Cenedlaethol, gan ddibynnu ar yr uchod, yn rhoi caniatâd serch asesiad negyddol o’r goblygiadau ar gyfer y safle rhaid iddo sicrhau bod unrhyw fesurau cydadferol angenrheidiol yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau cydlynedd cyffredinol Natura 2000 h.y. y rhwydwaith Ewropeaidd o ardaloedd cadwraeth arbennig ac ardaloedd gwarchod arbennig o dan y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt, y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 3(1) o’r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

17. Mae Rheoliad 13(11) yn pennu amodau gorfodol y mae’n ofynnol i’r caniatadau fod yn ddarostyngedig iddynt i sicrhau bod caniatadau yn cael eu gweithredu a bod angen caniatâd pellach ar gyfer gwaith sy’n sylweddol wahanol i’r rhai sy’n cael eu caniatáu.

18. Mae Rheoliad 13(12) yn cynnwys gofynion gweithdrefnol y dylid cydymffurfio â hwy wrth roi neu wrthod caniatâd.

19 Mae Rheoliad 13(13) yn atgynhyrchu’r darpariaethau yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy’n gymwys os yw awdurdod cymwys yn bwriadu rhoi caniatâd am unrhyw

brosiect sy’n cynnwys gweithrediad sy’n debyg o niweidio safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn erbyn cyngor gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

20. Adolygiad o Benderfyniadau pan ddaw safle wedi hynny yn safle Ewropeaidd

Mae Rheoliad 14 ac Atodlen 3 yn gweithredu erthygl 6(2) o’r Gyfarwyddeb Cynefinoedd drwy sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a gymerir yn unol â’r Rheoliadau hyn cyn i safle Ewropeaidd gael ei ddynodi a fyddai’n caniatáu cyflawni project a fyddai’n effeithio’n andwyol ar gyfanrwydd y safle yn cael eu hadolygu a’u diddymu neu eu haddasu yn ôl yr angen.

**Apelau**

21. Gall y sawl sy’n gwneud cais am benderfyniad sgrinio neu am ganiatâd ar gyfer prosiect perthnasol (neu berson sydd â diddordeb mewn prosiect yn ddarostyngedig i ddiddymiad neu addasiad o dan y darpariaethau adolygu a gynhwysir yn Atodlen 3) apelio yn erbyn penderfyniad croes i’r Cynulliad Cenedlaethol. Mae hawl gan yr apelydd gael ei glywed gan berson a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a gall y gwrandawiad at y diben hwnnw fod ar ffurf ymchwiliad lleol os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu hynny. Mae’r darpariaethau apelio cyffredinol wedi’u cynnwys yn rheoliad 15 ac Atodlen 4 ac mae’r gweithdrefnau ar gyfer penderfynu ar sylwadau ysgrifenedig a thrwy wrandawiad neu ymchwiliad lleol wedi’u cynnwys yn rheoliadau 16 ac 17 yn y drefn honno.

22 Gall personau a dramgwyddir gan benderfyniadau sy’n caniatáu i brosiectau fynd rhagddynt apelio i’r Uchel Lys i gael y penderfyniadau hynny wedi’u hadolygu o fewn 6 wythnos i ddyddiad cyhoeddi’r penderfyniadau (rheoliad 18).

**Troseddau**

23. Bydd personau sy’n cynnal projectau cyn derbyn yn gyntaf naill ai benderfyniad sgrinio negyddol neu ganiatâd ar gyfer y prosiect, neu sy’n gweithredu yn groes i’r amodau a roddwyd ar gyfer y caniatâd, yn cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn. Mae hefyd yn drosedd o dan y Rheoliadau hyn i wneud datganiadau anwir neu gamarweiniol er mwyn cael penderfyniad penodol.

**Hysbysiadau Stop**

24. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol am sicrhau bod gweithgareddau anawdurdodedig yn dod i ben ar unwaith, gall gyflwyno hysbysiad stop ar y person sy’n gwneud y gweithgareddau neu unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir lle mae’r gweithgareddau yn cael eu gwneud. Bydd methiant i gydymffurfio â’r hysbysiad stop yn drosedd (rheoliad 23).

**Adfer**

25. Mae Rheoliad 24 yn cynnwys pwer sy’n galluogi’r Cynulliad Cenedlaethol i gyflwyno hysbysiad sy’n ei gwneud hi’n ofynnol i berson y mae’n credu iddo fod yn gyfrifol am gyflawni trosedd, i adfer y tir i’w gyflwr blaenorol. Rhaid apelio yn erbyn hysbysiad adfer i’r Llys Ynadon. Bydd methiant i gydymffurfio â gofynion hysbysiad adfer hefyd yn drosedd.

**Pwerau Gorfodi**

26. Mae Rheoliad 25 yn cynnwys pwerau i gael mynediad mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau’r Cynulliad Cenedlaethol o dan y Rheoliadau hyn ac mae’n cynnwys y pwerau i archwilio ac i gymryd copïau o gofnodion. Darperir pwerau hefyd i gael mynediad i dir er mwyn cynnal gwaith adfer yn dilyn methiant i gydymffurfio â hysbysiad adfer.

**Y Gyfarwyddeb AEA**

27. Mae’r Rheoliadau hyn wedi’u seilio’n helaeth ar y Gyfarwyddeb AEA. Sefydlodd y Gyfarwyddeb honno yr angen am ganiatâd a nododd y weithdrefn sylfaenol sydd i’w dilyn wrth ddelio â chais am ganiatâd. Rhoddwyd hynt i’r aelod-wladriaethau eu hunain ysgwyddo’r cyfrifoldeb am union fanylion gweithredu’r Gyfarwyddeb yn ddarostyngedig i ymgorffori holl ofynion gorfodol y Gyfarwyddeb yn y ddeddfwriaeth fyddai’n ei gweithredu.

28. Felly mewn perthynas â’r holl brosiectau y mae’r Gyfarwyddeb yn mynnu bod asesiad effaith amgylcheddol yn cael ei gynnal rhaid cyflwyno deddfwriaeth i’w gweithredu. Cyfeirir yn benodol ym mharagraff 1(b) o Atodlen II i’r Gyfarwyddeb bod projectau ar gyfer defnyddio tir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol at ddibenion amaethyddol dwys yn ddarostyngedig i’r weithdrefn AEA.

29. Mae’r Gyfarwyddeb AEA hefyd yn nodi’r wybodaeth amgylcheddol sydd ei hangen fel rhan o’r asesiad. Mae hyn wedi’i nodi ym mharagraff 2 o erthygl 5, a cheir copi llawn ohoni yn rhan II o Atodlen 2 i’r rheoliadau hyn.